Keith Littler

Dechreuodd Keith Littler ei yrfa ym myd addysg fel athro ysgol cyn dod yn "hyfforddwr athrawon" yn Hull ac yna'n Bennaeth Ysgol Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol yng Ngholeg Polytechnig Hull (bryd hynny) yn ogystal â Threfnydd Cyrsiau Hyfforddiant mewn Swydd, yn Ysgol Addysg Prifysgol Hull. Symudodd i Gymru yn Ddeon Coleg Sir Gaerfyrddin, Rhydaman ac Ymgynghorydd Addysg y Sir mewn Nyrsio a Gofal Cymdeithasol. Aeth rhagddo i gyfuno ei Ordeiniad fel Offeiriad Di-dâl yn yr Eglwys yng Nghymru â swydd Ymchwilydd Cynorthwyol Ôl-Radd yng Ngholeg Meddygol Prifysgol Cymru. Ar ôl ail-hyfforddi fel offeiriad llawn amser fe'i penodwyd yn Offeiriad â Gofal am Rhydaman a Betws ac yna'n Rheithor grŵp plwyfi Pentywyn yn Esgobaeth Tyddewi. Ar yr un pryd bu'n gwasanaethu fel Deon Rhanbarthol, aelod o Fwrdd Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ynghyd ag amryw o bwyllgorau eraill gan gynnwys Pwyllgor Disgyblu'r Eglwys.

Derbyniodd BSc (Anrhydedd) (Llundain), MA (Efrog), PhD (Hull), MTh (Rhydychen), DMin (Bangor) a bu'n arholwr allanol a darlithydd gwadd mewn nifer o brifysgolion. Fel Aelod ac Arholwr ar Fwrdd BTEC, mae wedi arholi mewn 20 o golegau yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae'n ddarlithydd /ymchwilydd rhan amser ym Mhrifysgol Bangor, ac mae'n awdur tua 20 o gyhoeddiadau gan gynnwys yr erthyglau diweddar canlynol:

Littler, K. (2006), Views on baptism and confirmation in the Church in Wales: are rural clergy different? *Rural Theology*, 4(2), 127-132.

Littler, K. (2007), The ordination of women and inclusivity within the Church in Wales: theological and psychological considerations, *Archiv Fur Religionpsychologie*, 29, 319-324.

Littler, K. (2008), Who says Grandparents matter? *Journal of Beliefs and Values*, 29(1), 51-60.